

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Longyfarchiaidau...

**CLWB PÊL-DROED
GLYNRHEDYNOG**



**12 Diwrnod y Nadolig 2023
Enillydd 1**

CLWB PÊL-DROED GLYNRHEDYNOG

Dathlodd Clwb Pêl-droed Glynrhedynog ddiwedd tymor 2022/23 gyda'u gêm Rhieni yn erbyn Plant gyntaf erioed. Yn dilyn hynny, aethon nhw ati i baratoi ar gyfer tymor 2023/24, a'u nod oedd darparu mwy o gyfleoedd i blant yn eu cymuned leol ac o'i chwmpas.

Mewn cyfnod o bum mis, bu gwirfoddolwyr y clwb yn gweithio'n galed i sefydlu pedwar grŵp oedran newydd. Bellach mae gyda nhw saith tîm, yn amrywio o'u tîm Dan 6 newydd i dîm cyntaf y dynion.

Yn ddiweddar, mae'r clwb wedi elwa o'r cyfleuster 3G wedi'i uwchraddio ym Mharc y Darran. Y flwyddyn nesaf, maen nhw'n gobeithio datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer pêl-droed Menywod a Merched.